# Cynllun Gweithredu Strategol ASA Cymru

## cylchlythyr i'r cyhoedd

## rhifyn 3: Ion 2011

**Croeso i rifyn 3 o Gylchlythyr Cynllun Gweithredu Strategol Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig (ASA) i Gymru. Targed y cylchlythyr hwn yw unigolion ag ASA, eu teuluoedd, eu gofalwyr a phobl broffesiynol.**

## Llysgennad Cyflogi ASA i Gymru

Ar 1af Rhagfyr 2010, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas, benodiad Llysgennad Cyflogaeth Awtistiaeth Cymru.

Mae Robert Lloyd Griffiths, Cyfarwyddwr Sefydliad y Cyfarwyddwyr, Cymru wedi dechrau ar y swydd ran-amser hon am gyfnod o 18 mis. Ei waith fydd codi proffil cyflogi pobl sydd ag awtistiaeth a dangos sut y gall busnesau yng Nghymru elwa yn sgil y doniau, y sgiliau a'r wybodaeth y gall pobl ag awtistiaeth eu cynnig i'r gweithle.

Mae'r penodiad newydd hwn yn cael ei ystyried fel y cyntaf o'i fath yn y DU ac o bosibl yn y byd. Hefyd, un elfen yn unig yw hyn o blith nifer o brosiectau arloesol a hyrwyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i alluogi oedolion ag Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig (ASA) i wireddu eu potensial yn y gymdeithas heddiw.

## Cefnogaeth Bellach ar gyfer Cyflogi

**Gyrfa Cymru**
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio ar hyn o bryd gyda Gyrfa Cymru i ddatblygu hyfforddiant ASA penodol ar gyfer staff Gyrfa Cymru.

**Y Ganolfan Byd Gwaith**
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio'n glos â'r Ganolfan Byd Gwaith ac yn cynyddu'r gwaith o godi ymwybyddiaeth sy'n deillio o adroddiad y Grŵp Oedolion Gorchwyl a Gorffen.

**Deunyddiau Codi Ymwybyddiaeth i Gyflogwyr**
Anelir un o'r deunyddiau codi ymwybyddiaeth ASA sydd i'w lansio yn Chwefror 2011 at gyflogwyr, pobl ag ASA, ASA, cynghorwyr gyrfa a staff canolfannau gwaith. Gweler isod am fanylion pellach.

## Lansio Deunyddiau Codi Ymwybyddiaeth ASA Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cwblhawyd y gwaith ar Ddeunyddiau Codi Ymwybyddiaeth ASA Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd y deunyddiau'n codi ymwybyddiaeth o ASA ar gyfer ystod eang o bobl broffesiynol ac mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth i deuluoedd. Er enghraifft, bydd codi ymwybyddiaeth yn cael ei gyflwyno ym mhob ysgol a meddygfa yng Nghymru; ar draws y drefn Cyfiawnder Troseddol; ac mewn mannau ar y Stryd Fawr megis Deintyddion ac Optegwyr.
**Bydd y deunyddiau'n cael eu lansio ar 3ydd Chwefror 2011**.

## Datblygu Cronfa Ddata / Cofrestr ar gyfer Plant / Pobl Ifanc ag ASA

Mae gwaith ar y gweill ar brosiect dichonolrwydd i drafod y potensial ar gyfer datblygu cronfa ddata / cofrestr ar gyfer plant a phobl ifanc ag ASA ar draws Gogledd Cymru.
Cafodd y prosiect ei gyllido ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac fe'i cynhelir gan Brifysgol Bangor a Chanolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd.
Disgwylir cyhoeddi canlyniadau'r prosiect o fewn tua 18 mis.

## Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru

Lansiwyd Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru ar 23ain Medi ym Mhrifysgol Caerdydd. Bydd y ganolfan yn ceisio sicrhau lle blaengar i Gymru ym maes ymchwilio awtistiaeth yn rhyngwladol gan ddenu i Gymru fuddsoddiad sylweddol mewn ymchwil i awtistiaeth.

## Gwerthuso'r gwasanaethau asesu a diagnostig i blant ar draws Cymru

Yn gynharach yn yr hydref cafwyd gwerthusiad o wasanaethau Asesu a Diagnostig i Blant ar draws Cymru gan Ganolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru a Phrifysgol Bangor (dan arweiniad yr Athro Sue Leekam, Cadeirydd Awtistiaeth, Prifysgol Caerdydd). Ariannwyd y gwerthusiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cafwyd ymateb da gan glinigwyr trwy Gymru. Mae adroddiad yr Athro Sue Leekam wedi'i gwblhau ac ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei drafod.

## Gweithredu ar gyfer Oedolion ag ASA

**Asesu a Gwneud Diagnosis**

Mae rhwydwaith asesu a diagnostig trwy Gymru'n cael ei ddatblygu yn ogystal â rhwydwaith cyn/ar ôl diagnosis ar gyfer Oedolion ag ASA. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn asesu cynnig a gyflwynwyd iddi.

**Prosiectau Cefnogi a Monitro yn y Gymuned**

Cyflwynwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru gynigion ar gyfer prosiectau fydd yn datblygu monitro cymunedol a chefnogaeth i Oedolion ag ASA. Ni chafwyd penderfyniad ffurfiol ond gobeithiwn y daw un yn fuan.

**Tai**

Mae peth gwaith newydd ar droed ym maes tai i bobl sydd ag ASA. Mae Hugh Morgan, Rheolwr Gweithredu'r Cynllun Gweithredu Strategol ASA yn gweithio gydag Adran Dai LICC i benderfynu ar ffordd i sicrhau tai ar gyfer pobl sydd ag ASA. Bydd Gweinidogion Tai, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu hysbysu'n uniongyrchol am y gwaith hwn a byddant hwythau'n gwneud unrhyw gyhoeddiadau sy'n angenrheidiol cyn diwedd 2010-11.

## Grŵp Gorchwyl a Gorffen Oedolion 2010 / 2011

Yn dilyn yr argymhellion oedd yn adroddiad 2009 grŵp Gorchwyl a Gorffen LICC, daeth y grŵp yn ôl at ei gilydd i drafod rhai materion penodol ymhellach. Sef:

Addysg Bellach ac Uwch
Y Drefn Cyfiawnder Troseddol
Iechyd Meddwl
Effaith diwygio budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau
Pobl Hŷn

Mae i bob pwnc is-grŵp sydd yn casglu tystiolaeth ar hyn o bryd. Cyflwynir adroddiad ynghyd ag argymhellion i'r Gweinidog ym mis Mawrth 2011.

## Gwerthusiad Interim o Gynllun Gweithredu Strategol ASA i Gymru

Anfonwyd arolwg interim i bob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r arolygon wedi'u cynnal ac yn cael eu dadansoddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## Prosiectau Rhanbarthol Cydweithredol a ddatblygwyd gan gynllunio ASA yn lleol ac sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn dechrau yn 2010/11

Anfonwyd arolwg hefyd at sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru.

Bydd canfyddiadau'r arolygon hyn yn cael eu cynnwys mewn adroddiad a gyflwynir i'r Dirprwy Weinidog. Bydd y Dirprwy Weinidog yn penderfynu'r manylion parthed cyhoeddi'r adroddiad.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cefnogi datblygu 22 o brosiectau rhanbarthol y mae pob un ohonynt ar waith. Os bydd y prosiectau'n llwyddo, bydd y canlyniadau'n gymorth wrth ddatblygu gwasanaethau ASA drwy Gymru.
Daw'r cynnydd a wnaed gyda'r prosiectau i'r amlwg yn y 'crynodeb o arferion ASA' – gweler isod am fwy o fanylion.

## Datblygu Rhwydwaith Dysgu a Gwella ac e-adnodd ASA

Mae WLGA wedi cyflwyno cais i LICC am Rwydwaith Dysgu a Gwella ASA. Bydd y rhwydwaith yn sicrhau bod dysgu, datblygiadau ac arferion da ym maes ASA yn cael eu rhannu drwy Gymru, a bod y gwaith a wneir gan y Tîm Cefnogi Rhanbarthol yn sail i waith pellach.
Gobeithir y bydd e-adnodd ASA yn cefnogi'r rhwydwaith hwn. Gwefan fydd yr adnodd hwn sydd yn cynnwys gwybodaeth am ASA a gwasanaethau ASA yng Nghymru. Mae llawer o bobl drwy Gymru yn cyfrannu at y datblygiad hwn.

Mae Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru'n gweithio gydag Awtistiaeth Cymru i ddatblygu rhwydwaith dysgu clinigol ar y we ar gyfer y bobl broffesiynol sy'n gweithio ym maes ASA.

## Rhannu Datblygiadau ac Arferion hyd yma

Ar hyn o bryd, mae'r Tîm Cefnogi Rhanbarthol ASA, sy'n rhan o WLGA, yn llunio 'crynodeb o arferion a datblygiadau ym maes ASA yng Nghymru'. Bydd y ddogfen hon yn cynnwys trosolwg o arferion da ac yn amlinellu'r datblygiadau sydd wedi digwydd ers lansio Cynllun Gweithredu Strategol ASA Cymru yn 2008.

**TEACCH am dridiau yn Ne Cymru**

Bydd yr Athro Gary Mesibov yn dychwelyd i Gymru ar Fawrth 29ain – 31ain 2011 yng Nghanolfan Gynadledda'r Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion, Nantgarw, ger Caerdydd.
Mae'r cwrs tri diwrnod TEACCH o fudd ymarferol mawr i'r holl bobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ag ASA, gan gynnwys athrawon, gweithwyr ym maes gofal cymdeithasol, therapyddion iaith a lleferydd, seicolegwyr, staff cefnogi dysgu a llawer o rai eraill. I gael ffurflen neilltuo lle a derbyn mwy o wybodaeth e-bostiwch jennie@autismcymru.org

**4edd Gynhadledd Ryngwladol Cymru ar Awtistiaeth – 21ain a 22ain Mehefin 2011, Caerdydd**

Bydd **4edd Gynhadledd Ryngwladol Cymru ar Awtistiaeth** yn dychwelyd i Gaerdydd ar 21ain a 22ain Mehefin 2011**.** Mae'r gynhadledd, sydd bellach ar ei phedwaredd flwyddyn, wedi'i phrofi'i hun yn gyson yn gyfle gwerthfawr i bawb sy'n mynychu gael dysgu a rhwydweithio. Unwaith eto, bydd yn dod ag ymchwilwyr rhyngwladol enwog, ymarferwyr ac unigolion ag ASA at ei gilydd i rannu eu gweledigaeth a'u profiadau er mwyn gwella dealltwriaeth ac arferion. Mae'r rhestr hyd yma'n cynnwys: Dr Temple Grandin, Dr Brenda Smith Myles, Dr Judith Gould, Yr Athro Tony Charman, Dr Susan Bryson, Dr Sally Rogers a Dean Beadle

Gwerth y gynhadledd yma i weithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol yw **10 pwynt CPD** a **2 ddiwrnod** tuag at **PRTL** i'r gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol. I gael ffurflen neilltuo lle a derbyn mwy o wybodaeth e-bostiwch jennie@autismcymru.org

## Sylwadau

Rydyn ni'n croesawu'ch sylwadau a'ch barn am y cylchlythyr hwn. E-bostiwch y Tîm Cefnogi Rhanbarthol yn ASDinfo@WLGA.gov.uk